



Bwletin GwE




#Diolch



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr. Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Neges gan GwE



Hoffem ddiolch i chi am y gwaith eithriadol yr ydych wedi'i gyflawni o dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Mae wedi bod yn gyfnod hynod o galed ac anodd i bawb eto. Dymuniadau gorau i chi i gyd dros wyliau hanner tymor; cadwch yn ddiogel a mwynhewch seibiant haeddiannol. Gallwn eich sicrhau y byddwn yn parhau i fod mor hyblyg ag y bo modd ac yn eich cefnogi hyd eithaf ein gallu dros yr hanner tymor nesaf a'r tu hwnt.



Cynnig Proffesiynol GwE


Cynnig Proffesiynol GwE ar G6

Mae Cynnig GwE ar G6 yn cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnis ar gyfer y flwyddyn ysgol.

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6. Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

01/11/2021-21/03/2022	Dyddiad	Cyfrwng
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma ac Iechyd Meddwl - hyfforddiant 2 ddiwrnod ar gyfer Uwch Arweinwyr	01/11/2021	Saesneg
Hyfforddiant Arferion sy'n Wybodus am Drawma i Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar	03/11/2021	Saesneg
ANG a Lles Disgyblion (Sesiwn 3, Cyfrwng Cymraeg)	08/11/2021	Cymraeg
ANG a Lles Disgyblion (Sesiwn 3, Cyfrwng Saesneg)	11/11/2021	Saesneg
Ieithoedd Rhyngwladol yn y cynradd: sesiynau galw heibio ar gyfer athrawon cynradd. Dyfodol Byd-eang GwE	11/11/2021	Dwyieithog
Hyfforddiant PACE a Sgiliau Perthynol ar gyfer Ysgolion a Sefydliadau	12/11/2021	Saesneg
ANG - Rheoli Ymddygiad yn eich Ystafell Ddosbarth (Sesiwn 4, Cyfrwng Cymraeg)	24/11/2021	Cymraeg
ANG - Rheoli Ymddygiad yn eich Ystafell Ddosbarth (Sesiwn 4, Cyfrwng Saesneg)	25/11/2021	Saesneg
Y Rhestr Wirio Arsylwi	26/11/2021	Saesneg
Chwarae sy'n Seiliedig ar Berthynas	03/12/2021	Saesneg
ANG - Cwricwlwm i Gymru - Hyrwyddo Addysgeg (Sesiwn 5, Cyfrwng Saesneg)	07/12/2021	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	08/12/2021	Saesneg
Rôl yr Oedolyn Allweddol	10/12/2021	Saesneg
ANG - Cwricwlwm i Gymru - Hyrwyddo Addysgeg (Sesiwn 5, Cyfrwng Cymraeg)	10/12/2021	Cymraeg
ANG - Asesu Ffurfiannol a Rhaglen Shirley Clarke (Sesiwn 6, Cyfrwng Cymraeg)	12/01/2022	Cymraeg
Cyflwyniad i Ymddygiadau Amddiffynnol i gefnogi lles	14/01/2022	Saesneg
ANG - Asesu Ffurfiannol a Rhaglen Shirley Clarke (Sesiwn 6, Cyfrwng Saesneg)	14/01/2022	Saesneg
Hyfforddiant PACE a Sgiliau Perthynol ar gyfer Ysgolion a Sefydliadau	26/01/2022	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	16/02/2022	Saesneg
'Bioffilia' - 'Gwell mewn nag allan', Dr Coral Harper	09/03/2022	Saesneg
Hyfforddiant Arferion sy'n Wybodus am Drawma i Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar	16/03/2022	Saesneg



Rhaglenni Cenedlaethol

Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol

RHAGLEN DATBLYGU DARPAR BENAETHIAID – PARATOI AR GYFER CPCP	
Dolen i'r wefan: https://tinyurl.com/k7638d4w	Ymholiadau: CPCP@gwegogledd.cymru
Lansio'r Rhaglen	01/07/21
Sesiynau briffio ar gyfer darpar ymgeiswyr	13/09/21 & 14/09/21
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 22/10/21
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2022
Ceisiadau ar gyfer Asesiad CPCP	Tachwedd 2022
Canolfan Asesu CPCP	Chwefror 2023

Dyddiadau Dysgu Proffesiynol ANG 2021-2022

Cliciwch [yma](#) am ddyddiadau a gwybodaeth am sut i ymuno â'r sesiynau briffio **enedlaethol** i ANG, Mentoriaid Sefydlu a Gwirwyr Allanol. Mae'r sesiynau hyfforddi **rhanbarthol** ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwys yn fyw ar G6 bellach. Gweler mwy o fanylion a dyddiadau [yma](#) ac ar G6.

Recordiau a Fideos ANG's 2021-22



RECORDIAD	DOLEN YOUTUBE	
NQT Session 1 (English)	https://youtu.be/bdf7hi2PBvU	HB/RR
ANG Sesiwn 1 (Cymraeg)	https://youtu.be/pmnhSVcWlyw	IJ/AW
Induction Mentor Session 1 (English)	https://youtu.be/C6HzmMB8e84	SP/BF
Sesiwn 1 Mentor Sefydlu (Cymraeg)	https://youtu.be/oDPvJkhEZGE	AW/IJ
External Verifier Training (English)	https://youtu.be/n3Lg12-68F0	BF/CJ
Hyfforddiant Gwirwyr Allanol (Cymraeg)	https://youtu.be/lgbs89Ah594	IJ/AW

Rhaglen Datblygu Darpar CALU

Mae **Cylch 4** y Rhaglen Datblygu Darpar CALU yn cychwyn ym mis Medi 2021. Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw **12 Tachwedd 2021**. Cliciwch [yma](#) am wybodaeth am y Rhaglen a sut i ymgeisio. Cewch ragor o fanylion yn y [fideo](#).

Cyfle cyffrous i Gynorthwyrwyr Addysgu newydd!

Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwyrwyr Addysgu** i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan ddigidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwyrwyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru, [cliciwch yma](#).



Newyddion a Gwybodaeth GwE

Dangosfwrdd Cynllunio Grantiau Rhanbarthol 2021/22

Dilynwch y [canllawiau sydd ynghlwm](#) i fynd at y dangosfwrdd. Mae'r dangosfwrdd yn cynnwys y 3 prif grant rhanbarthol: Grant Gwella Addysg, Grant Datblygu Disgyblion, Grant Dysgu Proffesiynol. Os cewch unrhyw broblem, cysylltwch â'ch Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant neu anfonwch e-bost i grantiau@GwEGogledd.Cymru

Gweithredu'r System Anghenion Dysgu Ychwanegol

Fel y nodwyd yn [natganiad](#) y Gweinidog ar 14 Gorffennaf, ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg wedi'u haddasu. Mae rhagor o wybodaeth am hyn wedi'i nodi yn y diweddariad yn y ddolen ganlynol: [Gweithredu'r System Anghenion Dysgu Ychwanegol - Diweddariad](#)

Asesiad Gwaelodlin 2021

Bu i'r Gweinidog Addysg gyhoeddi cyn gwyliau'r haf ei bod hi'n ofynnol eleni i ysgolion cynradd gynnal asesiadau gwaelodlin ar ddisgyblion y dosbarth Derbyn o fewn 6 wythnos gyntaf tymor yr hydref (gweler y datganiad [yma](#)). Ceir cyflwyniad gan dîm Cyfnod Sylfaen GwE sy'n cynnig arweiniad ar sut i asesu disgyblion yn erbyn y proffil cryno yn adran 'Cyfnod Sylfaen' Canolfan Gefnogaeth GwE. <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/cyfnod-sylfaen-arsylwi-yn-erbyn-y-proffil-cryno/>

I dderbyn arweiniad, cysylltwch â: AnnaHughes@gwegogledd.cymru / GwawrEleriThomas@gwegogledd.cymru / JoanneDavies@gwegogledd.cymru

Er nad yw'n ofynnol i ysgolion weithredu'r asesiad gwaelodlin gyda disgyblion meithrin, mae GwE o'r farn bod hyn yn arfer dda er mwyn adnabod gwaelodlin plentyn ar fynediad i'r ysgol.

Y Primary Science Teaching Trust (PSTT)

Croeso i [Newyddlen](#) y Primary Science Teaching Trust i ysgolion GwE, tymor yr hydref.

Dyfodol Byd-Eang GwE: Ieithoedd Rhyngwladol

Seminar partneriaethau ysgolion i athrawon: Düsseldorf, 3-5 Rhagfyr 2021

Cynhelir y digwyddiad chwilio-am-bartner hwn yn Düsseldorf o 3 i 5 Rhagfyr, ble daw athrawon o'r DU a Gogledd Rhine-Westphalia at ei gilydd i ffurfio partneriaethau newydd rhwng ysgolion a thrafod prosiectau partneriaeth yn y dyfodol i edrych ar 'Sgiliau i'r Gweithle Byd-eang'.

Mae'n agored i athrawon ysgolion uwchradd a cholegau yn y DU. Theilir yr holl gostau teithio, llety a chostau yn ymwneud â'r digwyddiad gan UK-German Connection. Bydd angen i'r aelodau fod wedi cael dwy frechiad Covid-19.

DYDDIAD CAU: 1 TACHWEDD

Cewch fwy o wybodaeth a ffurflen ar-lein fer i wneud cais yma: <https://ukgermanconnection.org/school-partnerships-seminar>

Sector Cynradd (am ragor o wybodaeth, cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru)

Ieithoedd Rhyngwladol yn y cynradd: sesiynau galw heibio- Dyfodol Byd-eang GwE

Ymunwch â ni am sesiwn anffurfiol iawn i ddod i 'nabod y tîm, datblygu rhwydwaith cydweithredol a chefnogol ar draws y rhanbarth a rhannu ein profiadau wrth ddatblygu ieithoedd rhyngwladol yn y cynradd. Rydym yn deall y bydd ysgolion mewn llefydd gwahanol ar eu taith tuag at gyflwyno ieithoedd rhyngwladol. Gyda'n gilydd, gallwn ymateb i'r her o'n blaenau ac edrychwn ymlaen at gyfarfod â chi i gyd. Bydd ein cyfarfod cyntaf ar **11/11/21**. Byddwn ar gael unrhyw adeg rhwng **15:45 a 16:30**. Cofrestrwch ar G6 a galwch heibio os allwch chi, pan allwch chi.

Dysgu Proffesiynol Dyfodol Byd-eang GwE i athrawon cynradd: gwreiddio ieithoedd rhyngwladol yn y cwricwlwm.

Ymunwch â thîm PowerLanguage mewn sesiwn ymarferol ar ddysgu ac addysgu iaith wrth i chi baratoi a chynllunio ar gyfer ieithoedd rhyngwladol o fewn CiG 2022. Cewch archwilio syniadau newydd o Lwyfan PowerLanguage gan gynnwys adnoddau newydd sy'n gysylltiedig â COP 26! Bydd y sesiwn hwn yn fodd i athrawon ddatblygu syniadau a gwella hyder wrth gyflwyno ieithoedd rhyngwladol yn eu cwricwlwm. Ble bynnag ydych chi ar eich taith mae croeso i bawb i'r sesiwn, ac edrychwn ymlaen at eich gweld chi ar **22/11/21 o 15:45 tan 16:45**. Cliciwch yma i gofrestru: <https://pwlg.link/3BiMluu>



Gwybodaeth ac arweiniad Llywodraeth Cymru

Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru

Mae Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru yn ôl ac, eleni, rydym yn edrych ymlaen at weld enwebiadau unigryw ysbrydoledig i ddathlu'r gweithlu addysg rhagorol sydd wedi mynd y filltir ychwanegol i ddisgyblion, eu rhieni a'u staff. Trwy gydol y pandemig, mae ysgolion a gweithwyr addysg proffesiynol ledled Cymru wedi arloesi ac wedi parhau i ysbrydoli nid yn unig disgyblion a'u rhieni, ond y genedl.

Nawr yw'r amser i roi'r gydnabyddiaeth y maen nhw'n ei haeddu iddyn nhw trwy enwebu ar-lein fan hyn: www.llyw.cymru/gwobrauaddysgu

Mae gennych tan hanner nos ar 23/11/21 i enwebu.

Mae yna 10 Gwobr, yn cynnwys **Pennaeth y Flwyddyn**, a ddyfernir i Bennaeth eithriadol sy'n arddangos y gallu i ennyn diddordeb yr ysgol yn y gymuned a diddordeb y gymuned yn yr ysgol, er mwyn gwneud gwahaniaeth i bob disgybl.

Strategaeth Genedlaethol Cymru ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol

CYFRES SEMINARAU 2021-2022

Bydd cyfres seminarau 2021-2022 Strategaeth Genedlaethol Cymru ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad yn gysylltiedig â blaenoriaethau yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Gobeithiwn y gall ymarferwyr, llunwyr polisi ac ymchwilwyr ymuno â ni ar gyfer y sesiynau hyn. Fe'u cynhelir rhwng 15:00 a 16:30 ar y dyddiadau yma, a hynny drwy gyfrwng y Saesneg yn unig.

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

Darllen Dros Gymru 2021-2022

Cliciuch yma i ddarllen manylion llawn y gystadleuaeth Darllen Dros Gymru eleni.

Am ragor o wybodaeth cliciuch yma, neu e-bostiuch ilid.haf@llyfrau.cymru



Amgueddfa Lechi Cymru: Ddoe, Heddiw a Fory

A ninnau'n dathlu dod yn ran o Safle Treftadaeth Byd UNESCO eleni a'n penblwydd yn 50 flwyddyn nesaf, mae'r Amgueddfa Lechi yn edrych i'r dyfodol.

Sut amgueddfa ydych chi eisiau?

Mae'n bwysig i ni ein bod ni'n amgueddfa i'n cymunedau a'ch bod chi'n cael cyfle i gymryd rhan yn y broses o siapio ein camau nesaf – byddai'n wych cael mewnbwn gan ysgolion am sut y gallwn ni wella ein cynnig i chi. Er fod y cwestiynau yn gogwyddo'n fwy at ymatebion personol, dyma gyfle i chi ystyried sut byddai datblygiadau yn yr amgueddfa'n gallu cyfoethogi profiadau disgyblion a chefnogi gyda'r cwricwlwm newydd. I ddiolch i chi am eich amser, bydd opsiwn i chi gofrestru i ennill gwobr.

Amgueddfa Lechi Cymru: Ddoe, Heddiw a Fory

Bydd yr holiadur yn fyw tan 31 Hydref

SSCE Cymru

Gweler isod ddolen i lawrlwytho copi o gylchlythyr SSCE Cymru (Hydref 2021): www.SSCECymru.co.uk/adnoddau/

NewyddlenSSCECymru

Cystadleuaeth Sero Net Cynradd yr RAF

Cliciuch yma am ragor o wybodaeth am y gystadleuaeth gyffrous hon.



Mae'r Prosiect Mentora Ffiseg yn recriwtio ysgolion ar hyn o bryd i gymryd rhan yng Nghylch 5

Mae'r Prosiect yn lleoli myfyrwyr wedi eu hyfforddi o brifysgolion Cymru mewn ysgolion ledled Cymru i fentora disgyblion ym mlynnyddoedd 9-11 mewn Ffiseg.

Mae'r adroddiadau gwerthuso yn dangos bod cymryd rhan mewn Mentora Ffiseg yn arwain at gynydd yn nifer y myfyrwyr ysgol sy'n bwriadu dilyn Safon Uwch Ffiseg a mynd i yrfaedd sy'n gysylltiedig â STEM, gan gynnwys merched, sydd wedi'u gwahardd rhag astudio Ffiseg yn hanesyddol. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cynnal y prosiect yn eich ysgol, cysylltwch â physicsmentoring@caerdydd.ac.uk. Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael, a byddan nhw'n cael eu neilltuo i ysgolion mewn cydweithrediad â'r Arweinwyr Gwyddoniaeth Uwchradd yn eich consortiwm. Ceir rhagor o fanylion yma.

Labordai Dysgu Grŵp Cydweithredol Cymru ar gyfer Dylunio Dysgu (GCCDD)

Mae Grŵp Cydweithredol Cymru ar gyfer Dylunio Dysgu (GCCDD) yn cynnal y labordy dysgu cyntaf ar gyfer athrawon yng Nghymru ar 02/11/21 o 16:30 i 17:30. Dewch draw i drafod y gwersi rydym wedi'u dysgu o'r pandemig a sut medrwn eu defnyddio yn y dyfodol. **Cofrestrwch:** shorturl.at/fpAB6

#dyluniodysgucymru



Grŵp Cydweithredol Cymru ar gyfer Dylunio Dysgu
Wales Collaborative for Learning Design



Ymunwch â ni ar gyfer y cyntaf o gyfres o
LABORDAI DYSGU
GCCDD a Ariennir gan Lywodraeth Cymru
#1: Gwersi o'r Pandemig
ar gyfer Dylunio Dysgu
- Dysgu Ar-lein Cydweithredol ac Anghydamsedol -
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Ysgol Addysg a Phrotis Cymdeithasol
Ar-lein drwy MS Teams
Dydd Mawrth 2nd Tachwedd 2021
16:30-17:30
I gael rhagor o wybodaeth e-bostwch:
ladams@cardiffmet.ac.uk
neu cofrestrwch [yma](http://shorturl.at/fpAB6) a byddwch yn derbyn
Pecyn gwyb ac arweiniad Lab Dysgu GCCDD
Yn agored i bob athro dosbarth ysgol

Cyfle gyda'r Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor

Mae gan y Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor, ysgoloriaeth newydd ar gyfer Doethuriaeth i barhau â'r gwaith ymchwil arloesol mewn rhifedd efo ysgolion a GwE. Dyma brif nodau y prosiect ymchwil: (1) Cymharu effaith rhaglenni strategaeth rifedd SAFMEDS o'u defnyddio ar-lein ac efo'r dull llaw; (2) Gwerthuso effaith y cymorth i weithredu'r strategaeth SAFMEDS yn rhithwir ac yn y fan a'r lle; (3) Edrych ar ffyrdd i wella darpariaeth rhieni ar gyfer y strategaeth SAFMEDS a dysgu manwl. Caiff yr ymgeisydd llwyddiannus y cyfle i gael hyfforddiant a phrofiad o ddulliau gweithredu cymysg gan gynnwys hap-dreialon a grwpiau ffocws. <https://www.bangor.ac.uk/education-and-human-development/studentship-maths.php.cy>
<https://www.findaphd.com/phds/project/evaluating-modalities-of-delivery-of-a-fluency-based-mathematics-programme/?p134712>

post@gwegogledd.cymru

